Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

Ganolfan Addysg Tai

Bishop Street
Pen-y-graig
Tonypandy
Rhondda Cynon Taf
CF40 1PQ

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

Ynglŷn â Chanolfan Addysg Tai

Enw'r darparwr	Canolfan Addysg Tai
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Iaith y darparwr	Saesneg
Darpariaeth ar fwy nag un safle?	Nac oes
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	55
Disgyblion o oed ysgol statudol	55
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	03/06/2019
Dyddiad dechrau'r arolygiad	07/04/2025

Rhagor o wybodaeth

Mae Canolfan Addysg Tai yn uned cyfeirio disgyblion (UCD) a gynhelir gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 5 ac 11 oed sy'n profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Gall yr UCD ddarparu ar gyfer hyd at 56 o ddisgyblion.

Mae gan bob un o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a naill ai cynllun datblygu unigol (CDU) ysgol neu awdurdod lleol. Nid oes unrhyw ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith. Mae 55 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan ryw 53% o'r holl ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn wedi bod yn cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf ac yn cyd-fynd â ffigurau cenedlaethol Cymru ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn UCDau. Ar hyn o bryd, mae gan 24% o ddisgyblion statws plentyn sy'n derbyn gofal. Y gyfradd gyffredinol ar gyfer presenoldeb yn yr UCD yw 90%.

Caiff derbyniadau ar gyfer yr UCD eu rheoli trwy banelau'r awdurdod lleol. O'r 55 disgybl, mae 18 wedi eu cofrestru yn yr UCD, ac mae gan 37 o ddisgyblion gofrestriad deuol ag ysgolion prif ffrwd. Mae prosesau cofrestru wedi newid ers yr arolygiad craidd diwethaf. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn mynd i ysgol gynradd brif ffrwd.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Crynodeb

Mae Canolfan Addysg Tai yn amgylchedd anogol, cefnogol lle mae disgyblion yn ffynnu'n academaidd ac yn emosiynol. Mae ethos croesawgar y ganolfan, wedi'i gyfuno â staff medrus ac addysgu wedi'i gynllunio'n ofalus, yn arwain at welliannau nodedig yn lles, dysgu ac ymddygiad disgyblion.

Daw llawer o ddisgyblion i'r uned cyfeirio disgyblion (UCD) yn sgil cael trafferth mewn addysg brif ffrwd. Trwy brofiadau dysgu cynhwysol, difyr ac wedi'u teilwra'n unigol, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu cariad o'r newydd at ddysgu. Mae'r ymdeimlad hwn o gyflawniad yn magu hyder ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag atyn nhw eu hunain fel dysgwyr llwyddiannus. Mae staff yn cynnig strategaethau addysgu dilys, ymatebol a phwrpasol sy'n addasu i anghenion unigol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd, ymddygiad a chyfathrebu. Maent yn dangos balchder yn eu cyflawniadau, yn frwdfrydig yn y dosbarth, ac yn dangos hunan-werth a gwydnwch gwell.

Rhoddir cyfleoedd dilys i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu ac amgylchedd yr UCD, fel penderfynu beth maent eisiau ei ddysgu, a sut, yn eu gwaith testun. Mae hyn yn arwain at lefelau uchel o ymgysylltiad a mwynhad, ymdeimlad o berchnogaeth, a chyfraniadau ystyrlon at gynnydd y disgyblion mewn dysgu.

Mae staff yn gweithredu polisi ymddygiad clir, yn rhagweld heriau yn dda, ac yn addysgu strategaethau clir i wella ymddygiad disgyblion. Mae disgyblion yn gweithredu â charedigrwydd a pharch, mae achosion o ymddygiad heriol yn gostwng, ac fe gaiff gwaharddiadau eu hosgoi.

Mae staff yn cynllunio gwersi difyr, o ansawdd uchel, yn aml gan ddefnyddio offer digidol a chydweithio â disgyblion. Maent yn olrhain cynnydd yn fanwl ac yn gosod targedau uchelgeisiol ond realistig yn seiliedig ar anghenion unigol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu ac yn gwella'u medrau cymdeithasol yn sylweddol. Mae'r dysgu yn llawen ac mae disgyblion yn cymryd rhan â brwdfrydedd.

Caiff disgyblion gymorth personoledig trwy Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) ac adolygiadau cynnydd rheolaidd sy'n cynnwys rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer disgyblion ac yn cryfhau'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol, ac mae rhieni'n dweud bod newidiadau cadarnhaol ystyrlon ym mywyd eu plentyn ac yn eu bywyd teuluol.

Caiff yr UCD ei harwain gan arweinwyr ysbrydoledig sy'n ymgorffori ethos cryf o barch, cymuned, a disgwyliadau uchel. Mae staff yn myfyrio'n barhaus ar eu harfer, ac yn ei gwella, trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae disgyblion yn elwa ar amgylchedd sefydlog, wedi'i yrru gan werthoedd, lle maent yn ffynnu'n emosiynol ac yn academaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob disgybl yn ganolog i bob penderfyniad a strategaeth wella.

Ceir diwylliant diogelu cryf yn yr UCD. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, ac maent yn hyderus ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf mewn addysg, lle mae rhieni a gofalwyr yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi a'u cynnwys yn dda yn y broses hon.

Caiff adnoddau ariannol eu dyrannu'n ystyriol, er enghraifft cyflogi staff i gyflwyno rhaglenni rhianta pwrpasol. Ceir tystiolaeth glir o degwch mewn profiadau addysgol, a gall pob un o'r disgyblion fanteisio ar yr offer sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

Prif ganfyddiadau

Profiadau a chynnydd disgyblion

Mae Canolfan Addysg Tai yn gymuned fywiog, hapus a chroesawgar, sy'n cefnogi lles a dysgu disgyblion yn eithriadol o dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i ethos hynod gynhwysol a chefnogol yr UCD.

Mae staff yn eithriadol o fedrus o ran datblygu cariad disgyblion at ddysgu. Mae'n arbennig o effeithiol gan fod y rhan fwyaf o'r disgyblion wedi cael trafferth ymgysylltu â dysgu yn y gorffennol. I'r disgyblion hyn, mae'r cynnydd a wnânt tra byddant yn yr UCD yn datblygu teimladau gwerthfawr o gyflawniad a balchder. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddysgu â hyder a brwdfrydedd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn foesgar a chwrtais, ac yn dangos parch at eu cyd-ddisgyblion, gan barhau i ganolbwyntio, ac yn aml yn dangos ymagwedd gefnogol a chalonogol pan fydd cyfoedion yn profi heriau.

Dros gyfnod, mae disgyblion, gyda chymorth medrus staff, yn dysgu rheoleiddio eu hemosiynau ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wnânt yn eu dysgu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau rhifedd trwy ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr a dilys. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd nodedig yn gwella'u medrau cyfathrebu a llythrennedd. Maent yn gwrando'n astud ar staff a'u cyfoedion ac yn ymateb yn awyddus i gwestiynau. Ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol, mae staff yn darparu arweiniad sensitif a medrus, gan eu helpu i ymgysylltu'n effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn dda ac yn dod o hyd i wybodaeth allweddol yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu brawddegau byr ynghylch pam y dylent fod yn arlywydd, ac mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu â chywirdeb gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr gan faciwî.

Mae defnydd dilys ac effeithiol o lais y disgybl yn gryfder allweddol yn narpariaeth yr UCD. Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr UCD yn chwarae rôl weithredol yn dewis a chyfeirio'u testunau a'u gweithgareddau dysgu. Mae strwythurau cwricwlwm wedi'u cynllunio'n ofalus, ynghyd ag adnoddau priodol, yn caniatáu ar gyfer graddau helaeth o ddewis a pherchnogaeth i ddisgyblion. Mae hyn yn gryfder yn y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o ymgysylltiad a mwynhad ac yn gwneud cynnydd sylweddol tuag at eu lles a'u targedau academaidd.

Ceir ystod o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu'n gadarnhaol at fywyd yr UCD. Er enghraifft, cynigiodd aelodau o'r cyngor ysgol ychwanegu dewisiadau at weithgareddau amser egwyl i wneud yn siŵr fod gweithgareddau'n cael eu rhannu'n deg, ac fe gafodd eu hawgrym ei weithredu'n llwyddiannus.

Ymddygiad disgyblion

Mae gan yr UCD ymagwedd hynod effeithiol at gefnogi ymddygiad disgyblion, sy'n adlewyrchu ethos y ddarpariaeth gyfan. Ceir polisi clir a chadarn ar gyfer rheoli ymddygiad, ac ystod o strategaethau cefnogol a ddefnyddir yn gyson gan bob un o'r staff. Mae hyn yn hyrwyddo awyrgylch tawel ac anogol sy'n cynorthwyo dysgu'r disgyblion yn dda. Mae staff yn rhagweld heriau yn fedrus ac yn modelu disgwyliadau yn eglur. Er enghraifft, cyn gweithgarwch ymarferol gyda disgyblion iau, mae staff yn arwain trafodaeth ar rannu a charedigrwydd, gan fodelu ymadroddion ac ymddygiadau allweddol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n dda ac yn garedig a pharchus.

Mae addysgu eglur o ran deallusrwydd emosiynol a chaffael medrau annibynnol yn galluogi disgyblion i ddatblygu strategaethau i hunanreoleiddio ac addasu ymddygiad. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwella'u hymddygiad, eu hunan-werth a'u gwydnwch o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth bugeiliol a'r ymyriadau arbenigol a ddefnyddir yn eithriadol o dda ar draws yr UCD. Mae staff yn datblygu perthnasoedd ymddiriedus ac anogol â'r disgyblion ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus, gan alluogi'r rhai sydd angen lefel uchel o gymorth i ailymgysylltu â'u dysgu mewn modd cadarnhaol.

Mae arweinwyr yn olrhain a dadansoddi tueddiadau ymddygiadol yn ofalus ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud newidiadau ystyrlon. Caiff trosglwyddiadau rhwng gweithgareddau eu cynllunio'n ofalus a'u cyflawni'n ddi-dor, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd disgyblion yn methu rheoli eu hemosiynau. O ganlyniad, ac yn unol ag anghenion disgyblion, mae ymddygiad o gwmpas yr UCD yn eithriadol o dda, gan gynnwys amser egwyl. Mae achosion o ymddygiad heriol yn gostwng, a bu absenoldeb nodedig o waharddiadau cyfnod penodol am sawl blwyddyn.

Addysgu a dysgu

Mae addysgu yn gryfder nodedig yn yr UCD. O ganlyniad i'r ddarpariaeth effeithiol a phwrpasol hon, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn mewn llawer o feysydd pwysig o'u dysgu a'u hymddygiad, ac mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd eithriadol o dda.

Mae'r cwricwlwm yng Nghanolfan Addysg Tai yn hwyl, yn uchelgeisiol, yn gyffrous ac yn ddifyr. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau â gofal mawr, gan addasu eu cynllunio yn ôl yr angen i ystyried anghenion a galluoedd unigol disgyblion. Mae'r dull cyson ac ymatebol hwn yn sicrhau effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion dros gyfnod. Mae bron pob un o'r disgyblion yn chwarae rôl weithredol yn dewis ac yn cyfeirio'u testunau a'u gweithgareddau dysgu, gan ddangos lefelau uchel o ymgysylltiad a mwynhad, ac yn gwneud cynnydd sylweddol tuag at eu lles a'u targedau academaidd. Mae hyn yn gryfder yn y ddarpariaeth.

Mae pob un o'r staff yn fodelau rôl hynod effeithiol sy'n ymgymryd â'u gwaith ag egni ac angerdd. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac mae arferion i'w cynorthwyo i lywio'r diwrnod wedi hen ennill eu plwyf. O ganlyniad, mae disgyblion yn deall a dilyn arferion a disgwyliadau yn rhwydd, yn cymryd rhan â llawenydd a brwdfrydedd, ac yn dangos agweddau hynod gadarnhaol at ddysgu. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol, o ystyried bod bron pob un o'r disgyblion wedi wynebu heriau mewn ysgolion prif ffrwd, gan gynnwys cyfnodau o waharddiadau a mynediad rhan-amser at addysg, gan arwain at fylchau estynedig yn eu dysgu.

Mae cyflymdra'r rhan fwyaf o wersi yn effeithiol o ran cynnal sylw disgyblion, ac mae athrawon yn defnyddio adnoddau'n dda i gefnogi dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, caiff offer digidol, gan gynnwys cyfrifiaduron llechen, eu hintegreiddio'n naturiol yn y broses addysgu i gymell disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn dda, er enghraifft trwy gynhyrchu ffilm ddigidol, 'Get on your bicycle and recycle!' am risgiau newid hinsawdd.

Mae staff yn defnyddio cyfarwyddiadau clir ac eglur a holi effeithiol yn fedrus i annog ac ysgogi trafodaeth â disgyblion, ac yn rhoi adborth mynych a chefnogol iddynt ar lafar. Mae adborth ysgrifenedig yn rhoi gwybodaeth werthfawr ac y gellir gweithredu arni i ddisgyblion am eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Caiff disgyblion eu cynnwys yn fuddiol trwy gydol y broses adborth, ac maent yn datblygu mwy o annibyniaeth a gwydnwch yn eu dysgu.

Mae bron pob un o'r staff yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gydweithio â'i gilydd. Pan fo'n briodol, mae disgyblion yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau bach lle mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Maent yn gwrando'n astud ac yn gwrtais ar staff ac ar eu cyfoedion, ac yn cyfleu eu meddyliau a'u teimladau'n glir.

Mae staff yn mesur dealltwriaeth disgyblion trwy fonitro'u dysgu yn ofalus. Maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion, lle bo'n briodol. Mae athrawon yn dadansoddi deilliannau eu hasesiadau o ddisgyblion i lywio'r ffordd y maent yn cynllunio gwersi yn y dyfodol, a chamau nesaf y disgyblion mewn dysgu. Ceir systemau olrhain cadarn i fonitro a gwerthuso cynnydd disgyblion.

Mae cyfleoedd wedi eu cynllunio'n ofalus ar draws y cwricwlwm yn golygu bod bron pob un o'r disgyblion yn hyderus ac yn frwdfrydig am eu defnydd o Gymraeg ysgrifenedig a llafar achlysurol. Megis dechrau datblygu y mae gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr UCD.

Mae prosesau cadarn ar waith i gynorthwyo disgyblion sy'n ymuno â'r UCD, lle mae bron pob un o'r disgyblion yn setlo'n gyflym yn eu hamgylchedd dysgu amser llawn newydd. Mae athrawon yn olrhain a monitro cynnydd disgyblion o'u hasesiadau gwaelodlin yn drylwyr. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i lywio cynllunio, datblygu cynlluniau dysgu buddiol, a gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer dysgu, ymddygiad a lles.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion yn yr UCD gynllun datblygu unigol (CDU). Mae'r Cydlynydd ADY yn gweithio'n agos gyda staff i sicrhau bod pob CDU yn adlewyrchu anghenion unigol y disgyblion yn gywir. Eir ati i annog rhieni, gofalwyr, ysgolion prif ffrwd a rhanddeiliaid allweddol eraill i gymryd rhan yn y broses, gan hyrwyddo ymagwedd gydweithredol gref. Mae'r Cydlynydd ADY yn cydweithio â staff i roi ystod o ymyriadau effeithiol yn y dosbarth ar waith i wella deilliannau disgyblion. Mae timau staff yn gwneud defnydd hynod effeithiol o dargedau unigol disgyblion i gynllunio cyfleoedd dysgu pwrpasol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu targedau unigol yn ystod eu cyfnod yn yr UCD.

Arweinyddiaeth

Mae'r UCD yn elwa ar arweinyddiaeth ysbrydoledig ac ethos wedi'i ymgorffori'n gryf o barch a chymuned. Mae staff yn modelu hyn yn gyson, gan greu amgylchedd cefnogol sy'n galluogi disgyblion i ffynnu. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos ymddygiad, dysgu a datblygiad emosiynol gwell. Mae'r ddarpariaeth yn eithriadol o gryf, gyda thîm ymroddgar a medrus sy'n rhoi disgyblion wrth wraidd eu gwaith.

Mae arweinwyr wedi cynnal a chryfhau cynnydd cryf y disgyblion a welwyd yn yr UCD yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae'r ymagwedd ragorol a ddefnyddir gan arweinwyr yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau uchel ar gyfer cynnydd disgyblion mewn dysgu ac ymddygiad, y mae ymagwedd gadarn at les yn sail iddi. Caiff hyn ei gyplysu'n effeithiol gan arweinwyr yn modelu'r gwerthoedd a'r ethos disgwyliedig, sy'n rhoi ymdeimlad cadarn a sicr o arweinyddiaeth glir i staff.

Mae ymagwedd staff cyfan at hunanwerthuso yn amlwg yn yr holl brosesau, a chaiff ei gefnogi'n dda gan y meddylfryd myfyriol a ddangosir gan staff. Mae arweinwyr a staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r hyn maent yn ei wneud yn dda a'r camau nesaf ar gyfer gwella, sy'n rhoi disgyblion yn ganolog i'r holl gynllunio gwelliant yn gyson. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr UCD yn gwneud cynnydd cryf, ac mewn ychydig o achosion, cynnydd eithriadol o gryf yn eu dysgu, eu hymddygiad, eu datblygiad emosiynol a'u presenoldeb.

Mae gan staff eglurder yn eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac mae'r ymagwedd tîm gydweithredol yn gryfder sylweddol yn yr UCD. Mae'r staff, a gefnogir gan raglen datblygiad proffesiynol bwrpasol, yn ymdrechu'n barhaus i wella'u harfer, sy'n diwallu anghenion eu disgyblion yn hynod effeithiol.

Trwy ystod gadarn o brofiadau uniongyrchol ac adrodd hynod effeithiol gan arweinwyr, mae'r pwyllgor rheoli yn meddu ar ddealltwriaeth dra datblygedig o waith yr UCD a'i blaenoriaethau gwella. Mae'r ddealltwriaeth hon, ochr yn ochr â gwybodaeth, medrau a phrofiad proffesiynol amrywiol aelodau'r pwyllgor, yn eu galluogi i fod yn ffrindiau beirniadol hynod effeithiol.

Mae'r perthnasoedd gwaith rhwng staff, rhieni a gofalwyr yn hynod effeithiol. Mae bron pob un o'r rhieni a'r gofalwyr yn eithriadol o gadarnhaol am y cymorth a'r profiadau addysgol a gaiff eu plentyn yn ystod ei gyfnod yn yr UCD. Maent yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael iddynt gan staff fel y rhaglenni rhianta, sydd, yn eu barn nhw, yn gwneud gwelliannau cadarnhaol sylweddol i fywyd eu plentyn a'u bywyd teuluol. Mae arweinwyr yn darparu ystod o gyfleoedd buddiol i weithio gyda rhieni a gofalwyr i rannu'r cynnydd mae eu plentyn yn ei wneud, fel eu bod yn cael eu hysbysu'n dda ac yn gallu cyfrannu'n llawn at brofiadau addysgol eu plentyn. Er enghraifft, mae rhieni a gofalwyr yn hynod hapus ag ymglymiad eu plentyn yn arlwy'r cwricwlwm.

Mae partneriaid yr awdurdod lleol yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o gryfderau'r UCD a'r blaenoriaethau gwella. Maent yn cydnabod gwerth y ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar y disgybl ar draws holl elfennau profiad disgyblion. Maent yn rhoi cefnogaeth gref i ethos yr UCD, ac yn gweithredu'n effeithiol i gefnogi gweledigaeth arweinwyr.

Ceir diwylliant diogelu cryf a thra datblygedig ar draws yr UCD. Mae gan arweinwyr a phob un o'r staff ddisgwyliadau uchel am gadw eu disgyblion yn ddiogel bob amser. Mae prosesau i gofnodi pryderon yn gadarn ac mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau, y maent yn eu cwblhau'n ddiwyd. Cefnogir staff trwy raglen datblygiad proffesiynol sefydledig i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hynod fedrus. Mae'r cwricwlwm yn darparu ystod eang o gyfleoedd pwrpasol ar gyfer disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hawliau a sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel.

Mae staff yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod disgyblion sy'n gadael yr UCD yn cael eu paratoi'n llawn ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg. Nid yw llawer o ddisgyblion yn pontio'n ôl i addysg brif ffrwd amser llawn, ac mae angen mwy o ddarpariaeth arbenigol arnynt. Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth arbenigol o'r ystod eang o gyrchfannau posibl ar gyfer ymadawyr Blwyddyn 6. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn hynod effeithiol i gynorthwyo disgyblion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae rhaglen cynllunio pontio sefydledig ar waith, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr, a gwaith helaeth gyda phartneriaid allanol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd hynod effeithiol o adnoddau ariannol i uchafu'r effaith ar gyfer grwpiau o ddisgyblion a'u teuluoedd. Er enghraifft, caiff staff eu cyflogi i gyflawni'r ymyriadau rhianta wythnosol, i gynorthwyo disgyblion â'u hanghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae data disgyblion yn darparu tystiolaeth drylwyr ar gyfer arweinwyr sy'n dangos bod tegwch o ran profiadau a deilliannau addysgol ar gyfer pob un o'r disgyblion sy'n mynychu'r UCD.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r UCD ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r UCD ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr UCD drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a'r pwyllgor rheoli yn rheoli cyllid yr UCD yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr UCD a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y pwyllgor rheoli, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr UCD
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu UCD
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor UCD a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr UCD i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r UCD
- yn ystyried cynllun gwella'r UCD ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r UCD wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r UCD, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/06/2025